GUIDE DOGS
Cymru

Taflen Adnoddau Prosiect STEM

# Partneriaethau Cŵn Tywys



Gweithgaredd 1

# Tabl Beichiogrwydd

Ymchwiliwch i gyfnodau beichiogrwydd bob un o'r anifeiliaid yn y tabl.

| Rhywogaeth anifail | Nifer cyfartalog o rai bach ar gyfer pob beichiogrwydd | Cyfnod beichiogrwydd mewn diwrnodau |
|---|---|---|
| **Cath** | 5 | |
| **Ci** | 6 | |
| **Eliffant** | 1 | |
| **Dyn** | 1 | |
| **Llew** | 3 | |
| **Llygoden** | 8 | |
| **Cwningen** | 6 | |
| **Morfil** | 1 | |

Defnyddiwch y data yr ydych wedi ei gasglu yn y tabl i gwblhau'r graff bar er mwy dangos cyfnod beichiogrwydd pob anifail mewn diwrnodau






Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

Gweithgaredd 2a

# Bridiau Cŵn Tywys

**Rydym wedi edrych ar rywogaeth y ci a'i gymharu â mamaliaid eraill. Dewch i ni yn awr edrych yn fanylach ar y bridiau er mwyn cael gweld pa rai sy'n gwneud cŵn tywys da.**

Cysylltwch y rhieni â'u ci bach. Rhowch y rhif cywir islaw pob ci a dyfalwch pa frîd y byddem yn ei alw.





Ysgrifennwch frîd y ci bach

A=

B=







C=

D=

E=




Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

## Gweithgaredd 2b

# Siart bar o fridiau


**Crëwch siart cylch er mwyn dangos canrannau'r bridiau yr ydym yn eu defnyddio.**

| Brîd | Canran o Gŵn |
|---|---|
| Adargi euraid wedi ei groesi â Labrador neu Gi Bugail Almaenig | **50%** |
| Adargi labrador | **34%** |
| Adargi euraid | **10%** |
| Ci Bugail Almaenig | **4%** |
| Labrador wedi ei groesi â Phwdl neu Adargi â chot gyrliog | **2%** |



Gweithgaredd 4

# Defnyddio technoleg wisgadwy GPS (System Leoli Fyd-eang)




www.guidedogs.org.uk

**Her grŵp Stem**

# Dod o hyd i'r escaladur /grisiau symudol cywir

## Brîff:

Gall pobl sydd â nam ar eu golwg gael trafferth i ddod o hyd i'r escaladur/grisiau symudol cywir, yn enwedig os yw'r grisiau symudol sy'n mynd i fyny ac i lawr drws nesaf i'w gilydd neu os ydynt yn ymweld â lle newydd. Gallai hyn fod yn yr archfarchnad, y ganolfan siopa, y maes awyr neu yn yr orsaf drenau. Sut fyddech chi'n datrys y broblem?

## Cynllun:

**Ymchwilio i'r broblem:**

- Defnyddiwch y rhyngrwyd er mwyn dod o hyd i enghreifftiau o risiau symudol mewn mannau amrywiol ac i ddeall sut maen nhw'n gweithio.
- Meddyliwch am sut fyddech yn mynd o gwmpas os na fyddech yn gallu gweld. Ymchwiliwch i sut mae pobl sydd wedi colli eu golwg yn mynd allan ac yn symud o le i le a beth maen nhw'n ei ddefnyddio i'w helpu.

Nawr eich bod wedi ymchwilio i'r broblem, mae'n amser i feddwl am atebion. Nodwch syniadau eich grŵp ac yna cytunwch ar gynllun er mwyn gwireddu un ohonynt.

**Cwestiynau i'w hystyried wrth gynllunio ateb neu ddatrysiad:**

1. Sut alla i gynllunio ateb a fydd hefyd yn cadw pobl yn ddiogel?
2. Pa ddeunyddiau allaf eu defnyddio ar gyfer fy nghynllun?
3. Beth fyddai'n gweithio? Ateb technolegol isel neu uchel?
4. Pa synhwyrau eraill allai pobl sydd wedi colli eu golwg eu defnyddio er mwyn dod o hyd i'r grisiau symudol?

## I'w gwneud:

Gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, crëwch eich syniad. Dylai eich nodiadau esbonio sut mae'ch syniad yn mynd i weithio a pham. Cyflwynwch eich syniad i'r grwpiau eraill.

## Cyfle i ystyried:

- Ystyriwch eich syniad yn erbyn y broblem wreiddiol. A wnaethoch lwyddo?
- A fyddech yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun neu i'ch dull o weithio?
- A allwch wella'ch cynllun?
- Beth ydych wedi ei ddysgu?
- Beth wnaethoch ei ddysgu am gydweithio fel rhan o dîm?

**www.guidedogs.org.uk**